

Senedd Cymru

Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

# Difrod a chau Porthladd Caergybi yn dilyn storm Canfyddiadau cychwynnol

Ebrill 2025



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:  
**[www.senedd.cymru/SeneddEconomi](http://www.senedd.cymru/SeneddEconomi)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**  
**Senedd Cymru**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**  
E-bost: **[SeneddEconomi@senedd.cymru](mailto:SeneddEconomi@senedd.cymru)**  
X: **[@SeneddEconomi](https://twitter.com/SeneddEconomi)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Difrod a chau Porthladd Caergybi yn dilyn storm Canfyddiadau cychwynnol

Ebrill 2025





# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:  
[www.senedd.cymru/SeneddEconomi](http://www.senedd.cymru/SeneddEconomi)

---

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:  
Andrew RT Davies AS**  
Ceidwadwyr Cymreig



**Hannah Blythyn AS**  
Llafur Cymru



**Hefin David AS**  
Llafur Cymru



**Luke Fletcher AS**  
Plaid Cymru



**Samuel Kurtz AS**  
Ceidwadwyr Cymreig



**Jenny Rathbone AS**  
Llafur Cymru

---

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Mike Hedges AS**  
Llafur Cymru

## Cynnwys

<b>Argymhellion a casgliadau .....</b>	<b>5</b>
<b>1. Cefndir ac achosion.....</b>	<b>8</b>
<b>2. Ymateb cychwynnol Llywodraeth Cymru .....</b>	<b>11</b>
Drysych ynghylch Cyfrifoldeb Gweinidogol .....	11
Ymateb cychwynnol swrth a chyfathrebu gwael.....	13
Deall yr heriau ar gyfer yr ardal leol a chynnig cefnogaeth.....	17
<b>3. Dargyfeiriadau masnach .....</b>	<b>21</b>
<b>4. Polisi trafndiaeth hirdymor .....</b>	<b>24</b>
<b>5. Tasglu Môr Iwerddon .....</b>	<b>27</b>

---

## Argymhellion a casgliadau

**Argymhelliad 1.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'r gwersi a ddysgwyd o gau'r Porthladd a chyhoeddi'r canfyddiadau. Dylai hyn gynnwys gwersi o'r ymateb aciwt i'r cyfnod cau, ond hefyd unrhyw wersi trosfwaol o'r digwyddiad parhaus..... Tudalen 12

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor o'r farn y gallai'r digwyddiad fod wedi'i reoli'n well pe bai'r Ysgrifennydd Cabinet penodol yn arwain ymateb Llywodraeth Cymru. Mewn unrhyw ddigwyddiadau o'r raddfa neu'r cymhlethdod hwn yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru gytuno ar arweinydd Gweinidogol a fydd yn goruchwyllo ac yn atebol am reoli'r ymateb. .... Tudalen 12

**Argymhelliad 3.** Mae'r Aelodau'n teimlo nad oes ganddynt ddarlun clir o hyd o sut y datblygodd ymateb Llywodraeth Cymru i'r digwyddiad a chau'r porthladd. Dylai Llywodraeth Cymru nodi amserlen o gamau mewnol a gymerodd mewn ymateb i'r cyfnod cau o'r gwrthdrawiad cyntaf ar 6 Rhagfyr 2024. Dylai hyn gynnwys camau a gymerwyd i gael y data masnach diweddaraf gan CThEF. .... Tudalen 17

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru benderfynu ar fyrder pa gymorth ariannol a chymorth arall y bydd yn ei roi i fusnesau lleol yr effeithir arnynt gan y cyfnod cau, a chyfleu'n gyhoeddus y rhesymau dros ei phenderfyniad.... Tudalen 20

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflymu ei gwaith i weithredu'r argymhellion yn adroddiad Cyfeiriad Newydd ar gyfer Gyrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm y Pwyllgor, a chyflwyno'r strategaeth porthladdoedd a morol a'r cynllun cludo nwyddau fel mater o frys unwaith y bydd y tasglu wedi cwblhau ei waith. ....Tudalen 26

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn bwriadu monitro gwaith Tasglu Môr Iwerddon. I gynorthwyo gyda hyn, rhaid i Lywodraeth Cymru nodi manylion llawn ei chylch gorchwyl, aelodaeth a thasgau, gan gynnwys amserlenni. Dylai'r Tasglu roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn rheolaidd. Dylai amcanion Tasglu Môr Iwerddon gynnwys:

- Deall y ffactorau a achosodd y digwyddiadau yng Nghaergybi i ddeall a oes unrhyw oblygiadau i'r sector porthladdoedd ehangach neu bolisiau porthladdoedd;
- Sicrhau diogelwch y Porthladd yn y dyfodol;

- Gwella cyfleusterau i yrwyr yng Nghaergybi/ar y ffordd i Gaergybi;
- Asesu gwydnwch y cysylltiadau trafndiaeth i Gaergybi, a'u gwella, gan gynnwys ystyried cysylltiadau rheilffordd;
- Cefnogi hyfywedd hirdymor y Porthladd ac osgoi dargyfeirio masnach; a
- Sicrhau bod cynllun wrth gefn cryf ar gyfer unrhyw gyfnodau cau yng Nghaergybi yn y dyfodol, a phorthladdoedd yng Nghymru yn gyffredinol. Yn benodol, dylai hyn gynnwys rheoli traffig, cyfathrebu, gweithredu llwybrau morol amgen a chymorth i fusnesau lleol.  
.....Tudalen 29

**Casgliad 1.** Er gwaethaf ein hymdrechion gorau, mae llinellau atebolrwydd a chyfrifoldeb Gweinidogol yn aneglur i'r Pwyllgor ac i randdeiliaid allweddol sy'n ymwneud â'r ymdrechion ymateb ac adfer. Cred yr Aelodau y gallai'r dryswch hwn fod wedi gwaethygu problemau gydag ymateb Llywodraeth Cymru i'r argyfwng hwn..... Tudalen 12

**Casgliad 2.** Roedd y Pwyllgor wedi'i siomi gan y diffyg cyflymder a brys ymddangosiadol yn ymateb Llywodraeth Cymru i gau porthladd fferi prysuraf Cymru ar hyd llwybr masnach Ewropeaidd hollbwysig. Prin yw'r dystiolaeth a welodd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi mynd i'r afael yn ddigonol â'r cyfnod cau yn ystod y tri mis diwethaf. Cred yr Aelodau mai gweithredu ar lefel leol a chydweithredu rhwng porthladdoedd a rwystrodd cyfnod cau Caergybi rhag bod yn wir drychineb i fasnach Cymru a'r economi..... Tudalen 17

**Casgliad 3.** Er bod y Pwyllgor yn fodlon ar y cyfan bod y gwaith a wnaeth Cyngor Sir Ynys Môn yn rhoi darlun clir o sut yr effeithiodd y cyfnod cau ar fusnesau, mae'r Aelodau'n pryderu ynghylch y diffyg dealltwriaeth o'r effaith a gafwyd ar y gweithlu. Er enghraifft, hoffai'r Pwyllgor gael darlun cliriach o effeithiau colli swyddi ac oriau gwaith ar aelwydydd. Ar gyfer hyn, ac unrhyw ddigwyddiadau tebyg yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut y gall weithio gyda phartneriaid i ddeall yn uniongyrchol yr effaith ar weithwyr, yn ogystal â busnesau.  
..... Tudalen 20

**Casgliad 4.** Amlinellodd y Pwyllgor bryderon ynghylch dargyfeiriadau masnach yn ei adroddiad, Model Gweithredu Targed y Ffin: Y darlun yng Nghymru. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r holl bwerau sydd ar gael iddi i sicrhau bod Caergybi yn parhau i fod yn ddewis deniadol i osgoi dargyfeiriadau masnach.  
..... Tudalen 23

---

**Casgliad 5.** Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi diffyg sylw i borthladdoedd a chludo nwyddau yn ystod y Senedd hon. Mae'r Aelodau o'r farn, pe bai mwy o ymgysylltu wedi bod â'r sectorau porthladdoedd a chludo nwyddau, a phe bai'r argymhellion a nodir yn adroddiad y Pwyllgor, Cyfeiriad Newydd ar gyfer Gyrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm, wedi'u gweithredu, y byddai Llywodraeth Cymru wedi bod mewn sefyllfa well i ymateb i'r argyfwng hwn. Rydym o'r farn bod yr oedi i'r strategaeth porthladdoedd a mool a'r cynllun cludo nwyddau yn dangos y gallai diffyg ymgysylltu â'r sectorau hyn fod wedi rhoi Llywodraeth Cymru dan anfantais.  
.....Tudalen 26



## 1. Cefndir ac achosion

**1.** Ar 6 Mawrth cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn archwiliadol undydd yn edrych ar y difrod i Borthladd Caergybi yn dilyn storm, a arweiniodd at gau'r porthladd. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan nifer o sefydliadau ac arbenigwyr, gan gynnwys Stena Line Ports sy'n gweithredu yng Nghaergybi, a Llywodraeth Cymru. Canolbwyntiodd y Pwyllgor ar y materion a ganlyn:

- Achosion: y ffactorau a gyfrannodd at ddifrifoldeb y difrod.
- Cyfathrebu: y dull o gyfathrebu yn ystod y storm, ac wedyn, gan gynnwys cyfathrebu â defnyddwyr porthladdoedd, cymunedau a busnesau yr effeithiwyd arnynt gan gau'r porthladd, a hefyd rhwng llywodraethau.
- Adfer: cyflymder yr ymateb o ran asesu ac atgyweirio'r difrod, gan gynnwys y cymorth a ddarparwyd gan y Llywodraeth.
- Effaith: effaith y cyfnod cau, yn ogystal â maint ac effeithiolrwydd y camau sy'n cael eu cymryd i liniaru'r effeithiau.<sup>1</sup>

**2.** Cyrhaeddodd Storm Darragh y DU ar 6-7 Rhagfyr. Wynebodd Cymru y gwaethaf o'r storm, a chyhoeddodd y Swyddfa Dywydd Rybudd Coch (yn nodi risg i fywyd) ar gyfer y rhan fwyaf o arfordir Cymru rhwng 03:00 a 11:00 ar 7 Rhagfyr.<sup>2</sup> Fodd bynnag, dylid egluro, yn ôl Stena Line Ports, bod y difrod wedi digwydd mewn gwirionedd cyn i'r rhybudd coch ddod i rym.<sup>3</sup>

**3.** Roedd tystiolaeth ysgrifenedig Stena Line Ports yn nodi manylion am y digwyddiadau a arweiniodd at gau'r Porthladd:

*"On 6th and 7th December 2024, there were two berthing incidents, which rendered Terminal 3 berth unusable. Storm Darragh was forecast; however, these incidents immediately preceded the peak of the storm when the red weather alert was in place.*

*The berthing incidents involved two different vessels contacting monopile D2.2 on successive calls, resulting in a collapse of the monopile immediately following contact by the second vessel. The*

---

<sup>1</sup> Senedd.Cymru, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig [Difrod a chau Porthladd Caergybi yn dilyn storm](#)

<sup>2</sup> Metoffice.gov.uk, [Storm Darragh \(Saesneg yn unig\)](#)

<sup>3</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraff 18

---

*first incident was while manoeuvring on arrival at T3, the second contact was as the vessel departed the berth.”<sup>4</sup>*



**Ffigur 1 Llun o'r awyr yn dangos rhan o borthladd Caergybi**

- 4.** Nododd Stena Line Ports hefyd fod y digwyddiadau a'r difrod a achoswyd bellach yn destun hawliad yswiriant parhaus a chamau adennill posibl. Dywedodd na ellir darparu rhagor o fanylion ar hyn o bryd er mwyn peidio â rhagfarnu'r broses hon.<sup>5</sup>
- 5.** Arweiniodd y digwyddiad at gau'r Porthladd yn gyfan gwbl rhwng 7 Rhagfyr a 16 Ionawr. Roedd hyn yn golygu bod y Porthladd ar gau ar gyfer y cyfnod prysur cyn y Nadolig. Tra bod terfynfa 5 wedi ailagor, nid oes disgwyl i derfynfa 3 ailagor tan 1 Gorffennaf.<sup>6</sup>
- 6.** Roedd tystiolaeth ysgrifenedig yr Athro Andrew Potter yn cynnwys manylion o ddadansoddiad yr Ymchwiliad i Ddamweiniau Morol o'r digwyddiad:

*“The Marine Accident Investigation Branch (MAIB) also note the incident occurring, and state “A [Ro-Ro] “vessel was using a piling to*

<sup>4</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig – Stena Line Ports (Saesneg yn unig)

<sup>5</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig – Stena Line Ports (Saesneg yn unig)

<sup>6</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraff 29

*assist departure when it collapsed. [T]he vessel was undertaking a standard departure manoeuvre that is used in strong onshore winds. Whilst the stern was resting on a dolphin and the bow thrusted off, the dolphin gave way and collapsed into the harbour.” However, it appears from their website that the incident is not subject to a full MAIB investigation.”<sup>7</sup>*

**7.** Aeth yr Athro Potter ymlaen i ddweud y ceir gwybodaeth yn nata MAIB hefyd am ddau ddigwyddiad arall yng Nghaergybi yn ymwneud â'r pyst angori a'u ffenders, un yn 2023 a'r llall yn 2024. Dywed mai dim ond ychydig o wybodaeth sydd ar gael ond roedd y ddau ddigwyddiad yn ymwneud â symud mewn gwyntoedd cryfion.<sup>8</sup>

**8.** Mae'r Pwyllgor yn dal i wneud gwaith ar y cyfnod cau a'r effaith. Bydd yr Aelodau'n mynd ar drywydd y gwaith hwn wrth i ragor o wybodaeth ddod i'r amlwg ac wrth i'r achos yswiriant ddod i ben. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hwn yn trafod y problemau a achoswyd yn sgil cau'r Porthladd, ac mae'n cynnwys canfyddiadau cychwynnol y Pwyllgor.

**9.** Mae'r Cadeirydd wedi ysgrifennu at Irish Ferries, na wnaeth ymateb i wahoddiad y Pwyllgor i fynychu ei sesiwn ar 6 Mawrth. Mae'r Cadeirydd yn dal i aros am ymateb i'r llythyr hwn. Mae'r Aelodau'n hynod siomedig o gael dim ymgysylltiad â rhanddeiliad mor allweddol ar y pwynt hwn yn yr ymchwiliad.

---

<sup>7</sup> Yr Athro Andrew Potter, [tystiolaeth.ysgrifenedig \(Saesneg yn unig\)](mailto:tystiolaeth.ysgrifenedig@saesneg.unig)

<sup>8</sup> Yr Athro Andrew Potter, [tystiolaeth.ysgrifenedig \(Saesneg yn unig\)](mailto:tystiolaeth.ysgrifenedig@saesneg.unig)

---

## 2. Ymateb cychwynnol Llywodraeth Cymru

**10.** Mae gan y Pwyllgor bryderon ynghylch ymateb cychwynnol Llywodraeth Cymru i gau Porthladd Caergybi. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth nad oedd y camau y byddai'r Aelodau wedi disgwyl iddynt ddigwydd ar y diwrnod cyntaf, er enghraifft cysylltu â chyrrff masnach allweddol sy'n cynrychioli cludo nwyddau ar y ffyrdd, wedi digwydd am y rhan orau o fis. Yn gyffredinol, mae amserlen ymateb Llywodraeth Cymru yn aneglur ac yn anodd ei deall. Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu ynghylch strwythur gorchymyn a rheoli'r ymateb. Cred yr Aelodau fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gynnal ymarfer gwersi a ddysgwyd trwyadl ar gyfer y digwyddiad hwn, ac y dylai gyhoeddi ei chanfyddiadau er mwyn helpu i osgoi problemau tebyg yn y dyfodol.

### Dryswch ynghylch Cyfrifoldeb Gweinidogol

**11.** Mae gwefan Llywodraeth Cymru yn nodi mai Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio sy'n gyfrifol am "bolisi porthladdoedd, gan gynnwys porthladdoedd rhydd" (yn ogystal â "pholisi hedfanaeth")<sup>9</sup> ac mai Ken Skates AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, sy'n gyfrifol am y polisi trafnidiaeth a thrafnidiaeth ddatganoledig ehangach.<sup>10</sup> Fodd bynnag, ym mis Ionawr, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru wrth Aelodau Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ei fod wedi cadw'r cyfrifoldeb dros bolisi hedfan a pholisi morol er mwyn sicrhau bod synergeddau ar draws pob dull trafnidiaeth.<sup>11</sup>

**12.** Amlygwyd y dryswch hwn ynghylch cylchoedd gwaith pan ofynnodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr Cymdeithas Porthladdoedd Prydain, Stena Line Ports a Phorthladd Aberdaugleddau pa Ysgrifennydd Cabinet oedd yn gyfrifol yn y pen draw. Ni allai unrhyw un gynnig ateb ar unwaith, a dywedodd y tri y byddai'n rhaid iddynt ddod yn ôl ato ar y mater.<sup>12</sup> Er i Gymdeithas Porthladdoedd Prydain nodi nad oedd ganddi broblem yn cyfathrebu â'r ddau Weinidog a'u swyddogion.<sup>13</sup>

**13.** Pan ofynnodd y Cadeirydd yr un cwestiwn i Ysgrifennyddion y Cabinet, dywedodd Rebecca Evans AS wrth yr Aelodau:

---

<sup>9</sup> Gov.Cymru, [Cyfrifoldebau Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio](#)

<sup>10</sup> Gov.Cymru, [Cyfrifoldebau Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru](#)

<sup>11</sup> Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 8 Ionawr 2025, paragraff 229

<sup>12</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraffau 193, 194 a 196

<sup>13</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraff 198

*"I've got responsibility in relation to the contribution that ports and aviation make in relation to economic growth and stability, and then Ken has responsibilities in relation to the transport matters more generally. Of course, there's close engagement between ourselves and our officials on this."<sup>14</sup>*

## Ein barn ni

Er ein bod yn cydnabod y gallai fod angen mewnbwn gan fwy nag un Ysgrifennydd Cabinet neu Adran o'r Llywodraeth ar rai meysydd, rydym yn teimlo ei bod yn hanfodol bod atebolrwydd clir ac amlwg, yn enwedig wrth ymateb i argyfwng megis cau'r Porthladd. Roeddem yn meddwl ei fod yn dweud llawer na allai rhanddeiliaid allweddol ateb y cwestiwn syml o ran pa Ysgrifennydd Cabinet oedd yn gyfrifol. Er na fyddem wedi rhagweld eu gwybodaeth fanwl am waith mewnol Llywodraeth Cymru, byddem yn disgwyl iddynt allu cyfeirio at un Ysgrifennydd Cabinet arweiniol yr oeddent wedi bod yn gweithio ag ef ers i'r Porthladd gau. Mewn digwyddiadau yn y dyfodol, rhaid i linellau atebolrwydd Gweinidogol gael eu nodi'n glir a'u hegluro, gydag un person penodol yn gyfrifol ac yn atebol am yr ymateb.

Rydym hefyd yn nodi nad yw cofnodion gwefan Llywodraeth Cymru sy'n manylu ar gyfrifoldebau pob Ysgrifennydd Cabinet yn adlewyrchu'r rhaniad cyfrifoldebau a amlinellwyd gan Rebecca Evans AS. Dylid cywiro hyn.

**Casgliad 1.** Er gwaethaf ein hymdrechion gorau, mae llinellau atebolrwydd a chyfrifoldeb Gweinidogol yn aneglur i'r Pwyllgor ac i randdeiliaid allweddol sy'n ymwneud â'r ymdrechion ymateb ac adfer. Cred yr Aelodau y gallai'r dryswch hwn fod wedi gwaethygu problemau gydag ymateb Llywodraeth Cymru i'r argyfwng hwn.

**Argymhelliad 1.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'r gwersi a ddysgwyd o gau'r Porthladd a chyhoeddi'r canfyddiadau. Dylai hyn gynnwys gwersi o'r ymateb aciwt i'r cyfnod cau, ond hefyd unrhyw wersi trosfwaol o'r digwyddiad parhaus.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor o'r farn y gallai'r digwyddiad fod wedi'i reoli'n well pe bai'r Ysgrifennydd Cabinet penodol yn arwain ymateb Llywodraeth Cymru. Mewn unrhyw ddigwyddiadau o'r raddfa neu'r cymhlethdod hwn yn y dyfodol,

<sup>14</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraff 44:9



dylai Llywodraeth Cymru gytuno ar arweinydd Gweinidogol a fydd yn goruchwyllo ac yn atebol am reoli'r ymateb.

## Ymateb cychwynnol swrth a chyfathrebu gwael

**14.** Ar 14 Rhagfyr, wythnos yn dilyn y digwyddiad, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei datganiad cyntaf yn ymwneud â'r cyfnod cau. Roedd y datganiad hwnnw'n nodi bod Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru wedi cyfarfod â'r Porthladd a Chyngor Sir Ynys Môn ar 12 Rhagfyr "i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa". Disgrifiodd hefyd ddargyfeiriadau cludo nwyddau parhaus, gwaith yr oedd y Porthladd yn ei wneud i ailagor, a dywedodd "Mae swyddogion yn Llywodraeth Cymru yn cadw mewn cysylltiad agos â'r holl randdeiliaid perthnasol, gan gynnwys yng Ngweriniaeth Iwerddon ac yn Llywodraeth y DU, i ddeall graddfa lawn y difrod yn y Porthladd a phryd bydd y cyswllt masnach hanfodol hwn yn ailagor."<sup>15</sup>

**15.** Yn y dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Gymdeithas Cludo ar y Ffyrdd wrth yr Aelodau fod Transport Scotland wedi cysylltu i ddechrau ar noson 11 Rhagfyr i roi gwybod bod Caergybi wedi cau, ac y byddai 'Operation Overflow' ar waith yn Castle Kennedy.<sup>16</sup> Gwnaethant egluro bod y rhan fwyaf o gludwyr yn dewis dargyfeirio i'r gogledd drwy Cairnryan a Stranraer, neu i'r de i Abergwaun a Phenfro, a bod y Gymdeithas wedi cael gwahoddiad i alwadau partneriaeth gyda Transport Scotland, Heddlu'r Alban, Cyngor Dumfries a Galloway a rhanddeiliaid allweddol eraill am 09:30 ar 12 Rhagfyr a bron bob dydd ar ôl hynny yn y cyfnod cyn y Nadolig.

**16.** Mewn cyferbyniad llwyr, dywedodd y Gymdeithas Cludo ar y Ffyrdd wrth yr Aelodau hefyd:

*"the first contact that I had with the Welsh civil service throughout this whole process was that I got an e-mail on Christmas Eve, giving me an update on the Port. By that time, not only had the issue been live for nearly two weeks, but we had also secured the relaxation of drivers' hours, and that had run out by the time that I was first notified by the Welsh Government."<sup>17</sup>*

---

<sup>15</sup> Llywodraeth Cymru, [Datganiad ysgrifenedig: Cau Porthladd Caergybi](#), cyhoeddwyd ar 14 Rhagfyr 2024

<sup>16</sup> Y Gymdeithas Cludo ar y Ffyrdd, [tystiolaeth ysgrifenedig \(Saesneg yn unig\)](#)

<sup>17</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraff 277

---

- 17.** Dywedodd y Gymdeithas Cludo ar y Ffyrdd fod y diffyg cyfathrebu hwn yn rhwystro'r ymateb oherwydd fel arfer maent yn gallu lledaenu'r wybodaeth ar ran y Llywodraeth, neu o leiaf gyfeirio'r aelodau neu unrhyw un o'r cyrff ategol sydd o gwmpas at un pwynt cyswllt, lle mae'r wybodaeth yno. Dywed nad felly y bu yn y bennod benodol hon.<sup>18</sup>
- 18.** Roedd Cymdeithas Cludo ar y Ffyrdd Iwerddon yn beirniadu'r cyfathrebiadau gan y Porthladd a'r awdurdodau gan ddweud bod y cyfathrebu ar ddyfodiad y storm hon yn enbyd. Gwnaethant dynnu sylw at broblemau gyda negeseuon y byddai'r Porthladd 'ar waith yfory' gan arwain at oedi a rhwystredigaeth a phobl ddim yn anfon nwyddau mewn amser. Aeth ymlaen i ddweud fod dros 1,000 o drelars wedi bod yn ardal Caergybi, a mwy yn dal i ddod yno, gan na chafodd y Porthladd wybod y dylai stopio ac na fyddai'n ailagor y diwrnod canlynol. Ac wrth gwrs, mae'n ymwybodol erbyn hyn o absenoldeb llwybrau amgen. Dywed fod y broses o ddwyn cyrff gwahanol ynghyd, er mwyn caniatáu llwybrau drwy Aberdaugleddau ac i Abergwaun a Phenfro, yn araf. Parhaodd y broses am tua wythnos.<sup>19</sup>
- 19.** Cododd Cymdeithas Cludo ar y Ffyrdd Iwerddon hefyd faterion tebyg gyda chyflymder cyfathrebu fel yr amlinellwyd uchod gan y Gymdeithas Cludo ar y Ffyrdd. Yn benodol, amlygwyd materion yn ymwneud ag effeithlonrwydd a'r amserlen o ran pa mor gyflym y dechreuodd y gwaith adfer ar hyn. Eglurodd fod y sefyllfa'n 'storm berffaith', yn wleidyddol, i rywbeth fynd o'i le, gan fod yr etholiad cyffredinol newydd fod, ac felly cymerodd ychydig o amser i godi'r momentwm ar y platform hwn. Dywed nad oedd Llywodraeth Cymru erioed wedi wynebu sefyllfa fel hyn o'r blaen, ac roedd codi momentwm o'r ochr honno ychydig yn arafach.<sup>20</sup> Fel gyda'r Gymdeithas Cludo ar y Ffyrdd, tynnodd Cymdeithas Cludo ar y Ffyrdd Iwerddon sylw hefyd at ymateb Llywodraeth yr Alban fel enghraifft o arfer da.<sup>21</sup>
- 20.** Dywedodd Swyddfa Datblygu Morwrol Iwerddon wrth y Pwyllgor pan ddaeth y bobl angenrheidiol at ei gilydd, roedd lefel y cydweithrediad a'r ymrwymiad i ddatrys y broblem yn rhyfeddol. Dywed y cafwyd ymgysylltiad da iawn â swyddogion ar ochr Cymru, dan arweiniad y Gweinidog trafniadaeth, Ken Skates, a gymerodd ran yn drylwyr yn y broses. Fodd bynnag, amlygwyd bod amser wedi'i golli ar y dechrau, gan ddweud:

---

<sup>18</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraff 278

<sup>19</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraff 226

<sup>20</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraff 225

<sup>21</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraff 224

---

*“We could have been quicker into action, I think, but a lot of that rests with the communication at the early stages and the anticipation that Holyhead would reopen sooner rather than later, that these problems could be overcome within a matter of days. If there was clear visibility of that problem right at the very beginning, as I said in my remarks, it would have helped us a great deal.”<sup>22</sup>*

**21.** Roedd Cymdeithas Cludo ar y Ffyrdd Iwerddon yn cefnogi'r awgrym, gan ddweud bod y potensial i geisio cael momentwm a chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth Iwerddon yn dda, ond ei bod yn anodd gweld y momentwm hwnnw'n cael ei drosglwyddo i'r gwaith gwirioneddol ar y môr. Roedd yn honni, er bod y digwyddiad wedi digwydd yn gynnar ym mis Rhagfyr, nad oedd y gwaith adfer wedi dechrau tan ar ôl y Nadolig mewn gwirionedd.<sup>23</sup>

**22.** Dylid nodi bod y tywydd wedi chwarae rhan mewn arafu'r gwaith i ddechrau cael y Porthladd i ailagor. Eglurodd Stena Line Ports fod angen cynnal archwiliad llawn ar ôl y digwyddiad. Dywed mai dyna lle mae'r broblem, gan ei fod yn strwythur polion dur sydd yn y môr, ac yna mae angen archwilio drwy blymio. Dywed fod plymwyr ar gael 24/7 ond ei bod yn broses araf gan fod angen y tywydd cywir, yn ogystal â dŵr clir, a chyfaddefodd ei bod yn amser hir, yn anffodus, oherwydd amser y flwyddyn a bod angen sicrhau diogelwch y plymwyr sy'n rhan o'r gweithrediadau hynny.<sup>24</sup>

**23.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru wrth yr Aelodau y cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd iawn, nid yn unig yn fewnol, ond gyda rhanddeiliaid hefyd. Roedd yr Ysgrifennydd Cabinet yn siarad bron bob dydd gyda'i swyddog cyfatebol yn Llywodraeth Iwerddon, ac felly roedd ymgysylltu yn hynod effeithiol. Yn wir, cred mai dyna wnaeth osgoi argyfwng.<sup>25</sup>

**24.** Ychwanegodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru fod gan Lywodraeth Cymru berthynas dda â'r Gymdeithas Cludo ar y Ffyrdd a Logistics UK ond yn union ar ôl y digwyddiad, roedd yn canolbwyntio'n fawr iawn ar gyfathrebu â gyrwyr HGV a oedd yn agosáu at y Porthladd, neu yn y Porthladd, i sicrhau bod llif traffig yn cael ei reoli'n briodol. Aeth ymlaen i ddweud, o ran model Llywodraeth yr Alban ac ymgysylltiad cynharach â chyrrff masnach, mae hynny'n sicr yn

---

<sup>22</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraff 234

<sup>23</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraff 243

<sup>24</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraff 137

<sup>25</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraff 457

rhywbeth y bydd yn ymchwilio iddo, efallai dan nawdd tasglu Caergybi o ran sut y mae angen ymateb i unrhyw ddigwyddiadau o'r natur hon yn y dyfodol.<sup>26</sup>

## **Ein barn ni**

Mewn argyfwng sy'n datblygu, mae cyfathrebu clir, cyson ac amserol yn hanfodol bwysig. Nid ydym yn credu bod Llywodraeth Cymru wedi cyflawni hyn o ran cau Caergybi. Byddem wedi disgwyl i'r cyfathrebu rhwng yr Ysgrifennydd Cabinet a'r Porthladd ddigwydd yn gynt, ac yn gyffredinol i gyfathrebu fod yn gliriach.

Cawsom ein synnu'n fawr o ddysgu na ddigwyddodd y cyfathrebu cyntaf rhwng Llywodraeth Cymru a'r Gymdeithas Cludo ar y Ffyrdd tan wythnosau ar ôl y digwyddiad. Mae cyrff masnach mewn sefyllfa dda i helpu i gyfathrebu â'u Haelodau ac yn yr achos hwn byddai'r Gymdeithas Cludo ar y Ffyrdd wedi gallu cyfleu negeseuon i yrwyr ar lawr gwlad, ac i helpu Llywodraeth Cymru i ddeall y digwyddiad oedd yn datblygu.

Ymddengys bod Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â rhannau proffil uchel o'r ymateb yn gyflym ac yn effeithlon. Fodd bynnag, ymddengys bod elfennau o ddydd i ddydd wedi llithro. Rydym yn pryderu y gallai hyn fod yn symptom o gael dau berson yn gyfrifol yn y pen draw am yr ymateb, a grëodd fwch rhyngddynt lle gallai problemau godi.

Roeddem hefyd yn siomedig o glywed bod amser wedi'i golli, yn enwedig ar ddechrau'r digwyddiad. Er na allwn wneud sylw ar y gwaith atgyweirio gan na chawsom dystiolaeth dechnegol neu beirianyddol, roeddem yn bryderus o glywed barn Cymdeithas Cludo ar y Ffyrdd Iwerddon ei bod yn teimlo nad oedd gwaith adfer yn dechrau mor gyflym ag y dylai fod. Roeddem hefyd yn bryderus iawn bod y Gymdeithas Cludo ar y Ffyrdd, Cymdeithas Cludo ar y Ffyrdd Iwerddon a Swyddfa Datblygu Morwrol Iwerddon i gyd yn teimlo y gallai cyfathrebu fod wedi bod yn gyflymach yn syth ar ôl y digwyddiad.

Er ein bod wedi gwneud ein gorau i lunio amserlen o ddigwyddiadau, gan gynnwys gweithio allan pwy oedd yn gwybod beth pryd, a phwy oedd wedi siarad â phwy, nid ydym wedi gallu gwneud hyn â'r wybodaeth sydd ar gael. Byddai'n hynod ddefnyddiol helpu'r Pwyllgor i ddeall digwyddiadau a'n gwaith ar y mater hwn pe bai Llywodraeth Cymru yn nodi'r wybodaeth honno'n glir.

Mae'r dystiolaeth yn ei gwneud yn glir bod llawer o randdeiliaid o'r farn bod Llywodraeth yr Alban wedi cael ei hymateb i gau'r Porthladd yn gywir. Dylai

---

<sup>26</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraffau 458 a 459

Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn archwilio ymateb Llywodraeth yr Alban fel rhan o'r ymarfer gwersi a ddysgwyd rydym wedi'i argymhell.

**Casgliad 2.** Roedd y Pwyllgor wedi'i siomi gan y diffyg cyflymder a brys ymddangosiadol yn ymateb Llywodraeth Cymru i gau porthladd fferi prysuraf Cymru ar hyd llwybr masnach Ewropeaidd hollbwysig. Prin yw'r dystiolaeth a welodd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi mynd i'r afael yn ddigonol â'r cyfnod cau yn ystod y tri mis diwethaf. Cred yr Aelodau mai gweithredu ar lefel leol a chydweithredu rhwng porthladdoedd a rwystrodd cyfnod cau Caergybi rhag bod yn wir drychineb i fasnach Cymru a'r economi.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Aelodau'n teimlo nad oes ganddynt ddarlun clir o hyd o sut y datblygodd ymateb Llywodraeth Cymru i'r digwyddiad a chau'r porthladd. Dylai Llywodraeth Cymru nodi amserlen o gamau mewnol a gymerodd mewn ymateb i'r cyfnod cau o'r gwrthdrawiad cyntaf ar 6 Rhagfyr 2024. Dylai hyn gynnwys camau a gymerwyd i gael y data masnach diweddaraf gan CThEF.

## **Deall yr heriau ar gyfer yr ardal leol a chynnig cefnogaeth**

**25.** Dywedodd Fforwm Busnes Cybi wrth yr Aelodau, er bod y Porthladd wedi ailagor, fod nifer yr ymwelwyr yn dal i fod gryn dipyn yn llai yn y dref, boed hynny oherwydd cau'r Porthladd ai peidio, a'r ailagor a'r ansicrwydd ynghylch yr hyn sy'n digwydd o hyn ymlaen. Dywed fod llai o ymwelwyr yn y dref o hyd.<sup>27</sup> Ategwyd hyn gan ddata Cyngor Sir Ynys Môn a oedd yn dangos bod nifer yr ymwelwyr â Chanol Tref Caergybi wedi gostwng 36% ym mis Rhagfyr a 33% ym mis Ionawr o gymharu â'r un mis flwyddyn ynghynt.<sup>28</sup>

**26.** Tynnodd Fforwm Busnes Cybi sylw hefyd at y ffaith bod y Porthladd ar gau ar adeg bwysig, gan ddweud nad dyma'r prif dymor twristiaeth, ond yn sicr o ran y Nadolig a theithio yn ôl ac ymlaen i Iwerddon, ei bod yn amser prysur, ac mai dyma beth gafodd effaith ddifrifol ar y busnesau lletygarwch yn y dref.<sup>29</sup>

**27.** Nododd Cyngor Sir Ynys Môn fod y gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr wedi effeithio'n negyddol ar ystod eang o fusnesau, gyda rhai busnesau'n dweud bod masnach wedi gostwng 90% yn ystod y cyfnod cau. Yn benodol, effeithiodd y cyfnod cau ar y sectorau trafniadaeth, storio, manwerthu a lletyau.<sup>30</sup> Roedd Siamb

---

<sup>27</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraff 326

<sup>28</sup> Cyngor Sir Ynys Môn, [tystiolaeth.ysgrifenedig](#)

<sup>29</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraff 337

<sup>30</sup> Cyngor Sir Ynys Môn [tystiolaeth.ysgrifenedig](#)



Fasnach Gorllewin Swydd Gaer a Gogledd Cymru wedi cael tystiolaeth o effeithiau'r cyfnod cau gan fusnesau yr holl ffordd i lawr yr arfordir i Lannau Dyfrdwy.<sup>31</sup>

**28.** Rhoddodd Siambr Fasnach Gorllewin Swydd Gaer a Gogledd Cymru enghreifftiau o'r heriau i'r Aelodau - roedd gweithredwr gwesty wedi colli dros £15,000 yn ystod y cyfnod hwnnw o'r Nadolig oherwydd archebion yn cael eu canslo, ac roedd cwpl ar Market Street - unwaith eto, pen lleiaf y farchnad BBaCh - wedi gweld eu gwerthiant yn gostwng 25 y cant yn y dref, gan nad oedd teithwyr yn dod oddi ar y fferi.<sup>32</sup>

**29.** Rhoddodd y Gymdeithas Cludo ar y Ffyrdd enghraifft o sut yr effeithiwyd ar y sector logisteg, gan nodi bod cludwr wedi nodi bod yr amser a dreuliodd ef neu yrwyr yr oedd yn eu talu yn eistedd yn segur wrth y doc yn aros i symud, yn y cyfnod cyn y Nadolig, yn werth cyfanswm o fwy na £50,000.<sup>33</sup>

**30.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, amlinellodd Cyngor Sir Ynys Môn ganfyddiadau ei arolwg a oedd â'r nod o ddeall yr effaith a gafodd y cyfnod cau ar Ynys Môn a busnesau Cymru. Roedd canlyniadau allweddol yn cynnwys y canlynol:

*54% o ymatebwyr yn datgan fod swyddi mewn perygl oherwydd bod y Porthladd ar gau.*

*O'r swyddi mewn perygl, roedd 74% yn cynnwys swyddi parhaol, a dim ond 20% oedd yn swyddi contractau dim oriau.*

*95% yn teimlo y byddai gostwng nifer y llongau oedd yn hwylio o 16 Ionawr yn effeithio ar eu busnesau.<sup>34</sup>*

**31.** Dywedodd Fforwm Busnes Cybi a Siambr Fasnach Gorllewin Swydd Gaer a Gogledd Cymru wrthym fod y sectorau manwerthu, trafndiaeth a logisteg fwy neu lai wedi dychwelyd i'w sefyllfa arferol, ond ei bod yn rhy gynnar gwybod o ran y sectorau twristiaeth a lletygarwch gan ei bod yn dal i fod yn gynnar yn y tymor twristiaeth.<sup>35</sup>

**32.** Dywedodd y Cyngor wrth y Pwyllgor ei fod wedi dechrau trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru o ran cymorth i fusnesau. Nododd ei fod wedi rhannu'r

---

<sup>31</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraffau 366 a 368

<sup>32</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraff 343

<sup>33</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraff 260

<sup>34</sup> Cyngor Sir Ynys Môn, [tystiolaeth ysgrifenedig](#)

<sup>35</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraffau 349 a 351

---

astudiaeth fusnes, ynghyd a'r data caled, a bod trafodaethau'n parhau. Roedd y Cyngor wedi gofyn am gymorth ariannol ychwanegol ac i fesurau ymarferol gael eu cyflwyno i liniaru'r effeithiau. Mae'r cais yn cynnwys cymorth ariannol uniongyrchol, rhyddhad ardrethi busnes, ymgyrchoedd marchnata, yn ogystal â chymorth ar gyfer digwyddiadau lleol.<sup>36</sup>

**33.** Pan holwyd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio ynghylch cymorth ariannol i fusnesau, dywedodd wrth yr Aelodau fod Llywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi cael yr arolwg gan yr awdurdod lleol. Mae Llywodraeth Cymru yn archwilio'r wybodaeth, a nodwyd bod swyddogion mewn cysylltiad cyson â'r awdurdod lleol er mwyn gallu dod i benderfyniad ynghylch cymorth.<sup>37</sup>

**34.** Trafododd y Pwyllgor gymariaethau â'r cymorth a gynigiwyd i fusnesau yn ystod cyfnod cau Pont Menai. Fel rhan o hyn, dywedodd swyddog o Lywodraeth Cymru wrth yr Aelodau fod cefnogaeth yn ystod y cyfnod lle bu'r bont ar gau wedi'i gynnig drwy gyngor a meithrin capasiti ac ardrethi annomestig. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru eisoes wedi dechrau'r gwaith cynghori a chapasiti, ond bod angen ystyried a ellir cyfiawnhau ymyriad uniongyrchol, gan fod yn ystyriol y gellid gosod cynsail ar gyfer y dyfodol.<sup>38</sup>

## **Ein barn ni**

Rydym yn falch bod gwaith wedi'i wneud gan yr awdurdod lleol i asesu'r effaith y mae cau'r Porthladd wedi'i chael ar fusnesau lleol. Fodd bynnag, bedwar mis ar ôl i'r Porthladd gau, nid ydym wedi gweld penderfyniad eto gan Lywodraeth Cymru ynghylch a ddylid darparu cymorth ariannol i fusnesau yr effeithir arnynt.

Wrth inni symud i ffwrdd o'r cyfnod cau, rydym hefyd yn symud i ffwrdd o'r pwynt lle mae'r angen mwyaf a lle y byddai cymorth ar ei fwyaf effeithiol, er ein bod hefyd yn ymwybodol o'r effeithiau posibl sy'n wynebu rhai busnesau lleol tra bod un derfynfa yn parhau i fod ar gau. Mae angen i Lywodraeth Cymru ddod i benderfyniad yn gyflym ar hyn, a chyfleu'n glir y rhesymeg dros ei phenderfyniad i fusnesau lleol.

Er ein bod yn falch o glywed gan yr awdurdod lleol nad yw cau'r Porthladd wedi arwain at y lefel a ragwelwyd o ran colli swyddi, rydym o'r farn y byddai dealltwriaeth well o effeithiau cau'r Porthladd ar weithwyr lleol yn fuddiol. Er enghraifft, byddai deall sut mae colli oriau a/neu incwm wedi effeithio ar

---

<sup>36</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraff 382

<sup>37</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraff 558

<sup>38</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraff 560

weithwyr lleol yn rhoi darlun llawnach o'r effeithiau ar y dref a'r ardaloedd cyfagos.

**Casgliad 3.** Er bod y Pwyllgor yn fodlon ar y cyfan bod y gwaith a wnaeth Cyngor Sir Ynys Môn yn rhoi darlun clir o sut yr effeithiodd y cyfnod cau ar fusnesau, mae'r Aelodau'n pryderu ynghylch y diffyg dealltwriaeth o'r effaith a gafwyd ar y gweithlu. Er enghraifft, hoffai'r Pwyllgor gael darlun cliriach o effeithiau colli swyddi ac oriau gwaith ar aelwydydd. Ar gyfer hyn, ac unrhyw ddigwyddiadau tebyg yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut y gall weithio gyda phartneriaid i ddeall yn uniongyrchol yr effaith ar weithwyr, yn ogystal â busnesau.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru benderfynu ar fyrder pa gymorth ariannol a chymorth arall y bydd yn ei roi i fusnesau lleol yr effeithir arnynt gan y cyfnod cau, a chyfleu'n gyhoeddus y rhesymau dros ei phenderfyniad.

### 3. Dargyfeiriadau masnach

**35.** Mae Caergybi yn bwynt allweddol ar hyd pont dir y DU ar gyfer cludo nwyddau sy'n teithio o Iwerddon i gyfandir Ewrop. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, rhoddodd yr Athro Andrew Potter amlinelliad o'r llifoedd masnach drwy Gaergybi cyn y cyfnod cau:

*In terms of trade volumes, there are around 100,000 units per quarter handled through Holyhead, compared to approximately 115,000 units per quarter in 2019, a 13% drop. Post-Brexit, volumes had stabilized at around a 20% drop so there has been a slight recovery since early 2023. By comparison in Wales, Pembroke and Fishguard combined have continued to remain at around 60-70% of pre-Brexit levels. Comparing to English ports offering services to Ireland, volumes through Liverpool are similar to pre-Brexit levels, while Cairnryan [in Scotland] continues to see growth.<sup>39</sup>*

**36.** Yn ffodus, nid yw'r Athro Potter yn rhagweld gostyngiad hirdymor mewn masnach o ganlyniad i'r cyfnod cau hwn. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig nododd er y cafwyd effaith byrdymor ar gyfeintiau'r porthladd, gydag amserlen lawn o wasanaethau yn dychwelyd ers mis Ionawr, fod cyfle nawr i draffig ddychwelyd i basio drwy Gaergybi. Nododd nad yw data sydd ar gael yn gyhoeddus ar gael eto, ac ymddengys yn debygol y bydd niferoedd yn dychwelyd yn gymharol gyflym i'r lefelau traffig disgwylidig. Aeth ymlaen i ddweud bod angen sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o'r cyfnod cau, a bod yr holl randdeiliaid yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau gwydnwch ar gyfer y dyfodol, gan groesawu'r Tasglu.<sup>40</sup>

**37.** Nododd Swyddfa Datblygu Morol Iwerddon fod Caergybi yn draddodiadol yn cael ei hystyried yn borthladd hynod ddibynadwy. Aeth ymlaen i ddweud bod 104 o hwyliadau yr wythnos wedi'u colli o ganlyniad i gau Caergybi, ac y bu'n rhaid adleoli traffig i lwybrau eraill. Nodwyd mai'r llwybrau pwysicaf o ran yr ailddyrrannu traffig hwnnw oedd gwasanaethau allan o Ddulyn i Lerpwl, ac yna gwasanaethau ad hoc a roddodd Stena Line ac Irish Ferries ar waith ym mhorthladdoedd de Cymru—Abergwaun a Phenfro. Nodwyd bod y gwasanaethau hynny allan o Ddulyn yn amsugno tua 45 y cant o'r traffig a ddargyfeiriwyd o Gaergybi, gan gynnwys gwasanaethau i mewn ac allan o Lerpwl a Heysham. Roedd llwybrau

---

<sup>39</sup> Yr Athro Andrew Potter, [tystiolaeth ysgrifenedig \(Saesneg yn unig\)](#).

<sup>40</sup> Yr Athro Andrew Potter, [tystiolaeth ysgrifenedig \(Saesneg yn unig\)](#).

Gogledd Iwerddon hefyd wedi elwa'n sylweddol o draffig wedi'i ddargyfeirio, gyda thua 30 y cant o'r gweddill yn symud drwy lwybrau Gogledd Iwerddon. Ymdriniodd Rosslare â thua 25 y cant.<sup>41</sup>

**38.** Pan holwyd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio ynghylch effaith cau Caergybi ar fasnach Cymru, dywedodd wrth y Pwyllgor nad yw'r data ar gyfer masnach ranbarthol ar gyfer y cyfnod dan sylw wedi'i gyhoeddi eto. Dywedodd y bydd y data ar gyfer hyd at fis Rhagfyr 2024 yn cael eu cyhoeddi ar yr ugeinfed o'r mis hwnnw, ac y byddai darlun llawer cliriach ar gael bryd hynny. Aeth ymlaen i ddweud nad yw Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data masnach, ond yn ôl Cyllid a Thollau EF y mis Rhagfyr yma, roedd gwerth y fasnach a oedd yn mynd drwy Gaergybi yn £432.2 miliwn. Nododd fod hyn yn werth £922.6 miliwn ym mis Rhagfyr y flwyddyn flaenorol, ac er bod angen craffu ar y ffigurau hynny, fod hyn yn rhoi rhyw syniad o'r gwahaniaeth.<sup>42</sup>

**39.** Pan holwyd yr Ysgrifennydd Cabinet ynghylch y posibilrwydd y byddai cynlluniau dargyfeirio yn cael eu gwneud mewn ymateb i'r cyfnod cau yn dod yn barhaol, a masnach felly'n cael ei ddargyfeirio i ffwrdd o Gaergybi yn yr hirdymor, dywedodd:

*"Ultimately, individual companies will be making commercial decisions on whether to continue to use alternative ports as a result of the closure, or whether to return to Holyhead. That information will become clearer in due course. But, more widely as well, it's not really possible to disentangle the impact of the port's closure from other events that have impacted on trade. I know, recently, we talked with committee about the impact of Brexit, for example, on trade. So, there are a range of things that I think are coming into play together. But, once we do have that data, I think we'll be in a much better position to provide a bit more detailed analysis of what the impact was."*<sup>43</sup>

## **Ein barn ni**

Tynnodd yr Ysgrifennydd Cabinet sylw at y ffaith bod gwerth y fasnach a aeth drwy Gaergybi ym mis Rhagfyr bron i hanner biliwn o bunnoedd yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Mae'n amlwg y bydd cau'r porthladd wedi cyfrannu'n fawr at y gostyngiad hwnnw. Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd y porthladd ar gyfer

---

<sup>41</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraff 217

<sup>42</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraff 538

<sup>43</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraff 542



masnach Cymru, y DU ac Ewrop, ac economi Gogledd Cymru. Rydym hefyd yn bryderus ynghylch sut y gallai'r gostyngiad hwn mewn masnach fod wedi effeithio ar fusnesau.

Gwnaethom rybuddio'n ddiweddar am y risg o ddargyfeirio a dadleoli masnach i ffwrdd o borthladdoedd Cymru yn ein hadroddiad Model Gweithredu Targed y Ffin: Y darlun yng Nghymru.<sup>44</sup> Er ein bod yn croesawu tystiolaeth y tystion nad yw'r cyfnod cau yn debygol o achosi dadleoliadau masnach hirdymor pellach i ffwrdd o borthladdoedd Cymru, rydym yn bryderus o hyd y gallai'r digwyddiad hwn fod wedi gwaethygu'r materion a drafodwyd yn ein hadroddiad yn ymwneud â dargyfeirio masnach i borthladdoedd eraill yn yr Alban a Lloegr, neu drwy lwybr uniongyrchol o Iwerddon i gyfandir Ewrop.

Rydym yn croesawu'r cynnydd ym maint y fasnach i borthladdoedd deheuol Cymru o ganlyniad i'r dargyfeiriadau a roddwyd ar waith mewn ymateb i'r cyfnod cau, fodd bynnag, rydym yn ymwybodol iawn bod porthladdoedd eraill, yn enwedig Cairnryan, yn dod yn llwybrau mwy deniadol, gyda llai o rwystrau masnach na phorthladdoedd Cymru ar ôl Brexit.

Mae ymadawriad y DU â'r UE wedi arwain at roi gofynion adrodd ychwanegol ar fasnach, gan gynnwys cyflwyno rhag-hysbysiad ym mhorthladdoedd Cymru. Yn hynny o beth, cawsom ein synnu hefyd o glywed am ddibyniaeth Llywodraeth Cymru ar ddata Cyllith a Thollau EF a gyhoeddwyd, ac yn disgwyl yn lle hynny i'r Ysgrifennydd Cabinet fod wedi disgrifio'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i fynd ati'n rhagweithiol i gael diweddariadau mwy amserol gan Gyllid a Thollau EF.

Nid yw'n glir inni a yw Llywodraeth Cymru yn manteisio ar y data newydd hyn i roi ei hun yn y sefyllfa orau bosibl i ddeall llifoedd masnach drwy Gymru, ac os felly, sut y mae'n gwneud hynny. Mae hyn hyd yn oed yn fwy arwyddocaol yn sgil pryderon hirdymor Llywodraeth Cymru ynghylch dargyfeiriadau masnach i ffwrdd o borthladdoedd Cymru i borthladdoedd yn Lloegr a'r Alban ers Brexit, a'i hymdrechion i gydgyssylltu dull gweithredu ar y cyd ar arfordir gorllewinol Prydain Fawr mewn ymateb.

**Casgliad 4.** Amlinellodd y Pwyllgor bryderon ynghylch dargyfeiriadau masnach yn ei adroddiad, Model Gweithredu Targed y Ffin: Y darlun yng Nghymru. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r holl bwerau sydd ar gael iddi i sicrhau bod Caergybi yn parhau i fod yn ddewis deniadol i osgoi dargyfeiriadau masnach.

---

<sup>44</sup> Adroddiad y Pwyllgor - Model Gweithredu Targed y Ffin: Y darlun yng Nghymru

## 4. Polisi trafndiaeth hirdymor

**40.** Mae'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth 2022-2027 yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu Strategaeth Porthladdoedd a Morol Cymru a Chynllun Cludo Nwyddau a Logisteg Cenedlaethol Cymru erbyn 2024.<sup>45</sup> Ni chyrrhaeddwyd yr un o'r terfynau amser hynny.

**41.** Dywedodd yr Athro Andrew Potter wrth y Pwyllgor ei fod yn teimlo braidd yn siomedig nad oes strategaeth cludo nwyddau ar gael,<sup>46</sup> gan dynnu sylw at y ffaith bod Gweinidogion wedi ymrwymo i ddatblygu un a bod yr Ysgrifennydd Cabinet presennol wedi dweud y byddai strategaeth erbyn diwedd y flwyddyn, ond na chafwyd unrhyw gynnydd pellach ar hynny. Nododd fod hynny i'w weld braidd yn ddiotal, o ystyried bod yr un diwethaf yn 2008.<sup>47</sup> Aeth ymlaen i ddweud wrth yr Aelodau nad oedd yn glir ai capasiti Llywodraeth Cymru i gyflawni'r strategaeth neu ai blaenoriaethau gweinidogol ehangach yn cystadlu oedd ar fai, gan dynnu sylw at y ffaith bod cludo nwyddau yn cystadlu â gwella'r rheilffyrdd, sy'n tueddu i gael mwy o sylw.<sup>48</sup>

**42.** Un o'r darnau cyntaf o waith a wnaeth y Pwyllgor hwn oedd edrych ar y prinder gyrwyr cerbydau nwyddau trwm, a materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi. Roedd yr adroddiad ar y gwaith hwnnw, Cyfeiriad Newydd ar gyfer Gyrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm, yn cynnwys nifer o argymhellion sy'n berthnasol i'r digwyddiad hwn, gan gynnwys argymhelliad i gyflymu'r gwaith o ddatblygu cynllun cludo nwyddau sy'n ymgorffori'r argymhellion o'r adroddiad hwnnw ac i weithio ar frys gyda phartneriaid i wella'r ddarpariaeth gorffwys i yrwyr cerbydau nwyddau trwm.<sup>49</sup> Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr holl argymhellion yn yr Adroddiad hwnnw.<sup>50</sup>

**43.** Bydd darpariaeth gorffwys o ansawdd gwael yng Nghaergybi wedi gwneud y profiad o fod yn sownd yn waeth i yrwyr nag oedd angen. Dywedodd y Gymdeithas Cludo ar y Ffyrdd wrth ei Haelodau fod Caergybi yn un o nifer o borthladdoedd lle mae'n cael ei wasanaethu'n wael iawn o ran cyfleusterau gorffwys, cyfleusterau hylendid ac ati, a bod hyn wedi achosi problemau penodol lle bu'n rhaid pentyrru lorïau. Eglurodd:

---

<sup>45</sup> Llyw.Cymru, [Cynllun cyflawni cenedlaethol ar gyfer trafndiaeth 2022 i 2027](#)

<sup>46</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraff 267

<sup>47</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraff 267

<sup>48</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraff 268

<sup>49</sup> Adroddiad Pwyllgor - [Cyfeiriad newydd ar gyfer gyrwyr cerbydau nwyddau trwm](#)

<sup>50</sup> [Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad cyfeiriad newydd ar gyfer gyrwyr cerbydau nwyddau trwm](#)

*“Although there is a privately owned small concern that is available, you're only looking at between 30 and 50 spaces there, and in terms of facilities, it's a portaloos and a burger van”*

**44.** Nodwyd bod y gwaith a wnaed yn Castle Kennedy, er nad oedd yn ddelfrydol, yn ei wneud yn lleoliad llawer gwell i bentyrru ar gyfer Cairnryan.<sup>51</sup>

**45.** Cadarnhaodd yr Ysgrifenyddion Cabinet fod gwaith yn dal i fynd rhagddo ar y Strategaeth Porthladdoedd a Morol a'r strategaeth Cludo Nwyddau. Fodd bynnag, mae'r amserlen ar gyfer y ddwy wedi newid, a bydd y ddwy strategaeth yn cael eu dylanwadu gan ganlyniadau Tasglu Caergybi nad yw wedi cyfarfod eto.

**46.** Wrth sôn am y strategaeth Porthladdoedd a Morol, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio:

*In terms of sequencing this work, the work of the taskforce is coming first to identify any resilience measures that we might want to put in place ahead of the autumn, when the weather starts to turn again. So, that's our immediate focus and priority, but we do of course have that commitment to provide a ports and maritime strategy, and that would be much wider than the remit just of the taskforce. And then it will give a single document that will emphasise the needs of all of our ports here in Wales, right across from north to south.<sup>52</sup>*

**47.** O ran y strategaeth Cludo Nwyddau a Logisteg, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru wrth yr Aelodau:

*initial work has been conducted on the freight and logistics strategy. We're working with other UK Governments to ensure that we have as best a consistent approach to our freight and logistics strategy as possible. The work of the taskforce is going to be crucially important, I think, in helping to shape the freight and logistics strategy, so that will follow after we've completed the work of the taskforce. But we are committed to publishing that new strategy before the next election.<sup>53</sup>*

---

<sup>51</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraff 249

<sup>52</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraff 526

<sup>53</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraff 548

## Ein barn ni

Mae'n hynod siomedig nad yw'r Strategaeth Porthladdoedd a Morol, na'r Cynllun Cludo Nwyddau a Logisteg, wedi'u datblygu. Mae'n syfrdanol bod y diwydiant cludo nwyddau yng Nghymru yn gweithio o dan fframwaith polisi cyhoeddus a ddatblygwyd 17 mlynedd yn ôl.

Hyd eithaf ein gwybodaeth ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus hyd yma ychwaith, ac felly nid ydym yn sicr i ba raddau y mae gwaith ar y Strategaeth Porthladdoedd a Morol, na'r Cynllun Cludo Nwyddau a Logisteg yn mynd rhagddo.

Rydym yn nodi'r sylwadau gan ddau Ysgrifennydd Cabinet fod gwaith y tasglu bellach yn berthnasol i'r ddau, ac yn cydnabod bod hyn yn wir. Fodd bynnag, byddem yn tynnu sylw at y ffaith bod y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth yn nodi y dylai'r ddau fod wedi bod yn barod o leiaf i'w cyhoeddi ar adeg y digwyddiadau. Rydym hefyd yn rhwystredig o weld bod Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru wedi gosod terfyn amser newydd, sef 'cyn yr etholiad nesaf', ar gyfer y strategaeth cludo nwyddau a logisteg. Mae hynny flwyddyn a hanner yn hwyrach erbyn hynny bydd y strategaeth bresennol yn 18 oed.

Teimlwn fod hyn yn arwydd o'r diffyg sylw y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi i borthladdoedd a chludo nwyddau yn y Senedd hon. Rydym o'r farn y byddai ymateb Llywodraeth Cymru a phrofiad cludwyr ac eraill yr effeithiwyd arnynt gan gau Porthladd Caergybi wedi bod yn well pe bai'r dogfennau hyn wedi bod yn barod.

**Casgliad 5.** Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi diffyg sylw i borthladdoedd a chludo nwyddau yn ystod y Senedd hon. Mae'r Aelodau o'r farn, pe bai mwy o ymgysylltu wedi bod â'r sectorau porthladdoedd a chludo nwyddau, a phe bai'r argymhellion a nodir yn adroddiad y Pwyllgor, Cyfeiriad Newydd ar gyfer Gyrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm, wedi'u gweithredu, y byddai Llywodraeth Cymru wedi bod mewn sefyllfa well i ymateb i'r argyfwng hwn. Rydym o'r farn bod yr oedi i'r strategaeth porthladdoedd a mool a'r cynllun cludo nwyddau yn dangos y gallai diffyg ymgysylltu â'r sectorau hyn fod wedi rhoi Llywodraeth Cymru dan anfantais.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflymu ei gwaith i weithredu'r argymhellion yn adroddiad Cyfeiriad Newydd ar gyfer Gyrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm y Pwyllgor, a chyflwyno'r strategaeth porthladdoedd a morol a'r cynllun cludo nwyddau fel mater o frys unwaith y bydd y tasglu wedi cwblhau ei waith.

## 5. Tasglu Môr Iwerddon

**48.** Ar 7 Ionawr cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru y byddai “tasglu aml-randdeiliaid dan arweiniad Llywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth newydd ar gyfer dyfodol Caergybi” yn cael ei sefydlu, mewn datganiad i'r Cyfarfod Llawn.<sup>54</sup>

**49.** Ar 14 Mawrth, yn dilyn cyfarfod â Llywodraeth newydd Iwerddon, rhyddhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet Ddatganiad Ysgrifenedig yn amlinellu rhagor o fanylion am y Tasglu. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet “Bu imi gyfarfod â Gweinidog Trafnidiaeth Iwerddon, Sean Canney, a thrafodais y berthynas rhwng Iwerddon a Chymru a'r cylch gorchwyl arfaethedig ar gyfer y Tasglu ar wytnwch Môr Iwerddon dan arweiniad Llywodraeth Cymru.” Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

*Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ddsbarthu y cylch gorchwyl drafft i aelodau'r Tasglu cyn i'r Tasglu gytuno iddo yn ei gyfarfod cyntaf ar 27 Mawrth ar Ynys Môn. Bydd aelodaeth y tasglu yn cynnwys grŵp craidd, gan gynnwys ymhlith eraill, cynrychiolwyr o Lywodraeth Iwerddon, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, awdurdodau lleol, cwmnïau porthladd a fferi, a chynrychiolwyr y sector logisteg. Rydym hefyd yn bwriadu defnyddio arbenigedd sectoraidd penodol yn ystod cyfarfodydd thematig y Tasglu yn y dyfodol.<sup>55</sup>*

**50.** Ar 6 Mawrth, pan glywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar Gau Caergybi, roedd yr Aelodau'n synnu o glywed mai ychydig iawn o waith oedd wedi'i wneud ar y Tasglu bryd hynny.<sup>56</sup> Fodd bynnag, roedd gan dystion lawer o eitemau yr oeddent yn meddwl y dylai'r Tasglu eu hystyried. O ran y tasglu, dywedodd Stena Line Ports wrth yr Aelodau ei fod yn adolygu gweithdrefnau a'r hyn a ddigwyddodd, a'i wytnwch ei hun. Wrth edrych ar y darlun ehangach o'r hyn sydd wedi digwydd a'r sôn am dasglu, dywedodd fod cydnabyddiaeth eang i bwysigrwydd Caergybi yn y gadwyn logisteg bwysig iawn rhwng y DU ac Iwerddon, ond ychwanegodd mai dim ond un rhan o'r gadwyn honno yw Stena Line Ports. Nododd fod llawer o rannau eraill; y ffordd, y rheilffordd, pontydd sy'n cysylltu'r naill ochr a'r llall.<sup>57</sup>

---

<sup>54</sup> Y Cyfarfod Llawn, 7 Ionawr 2025, paragraff 217

<sup>55</sup> Llyw.Cymru, [Datganiad Ysgrifenedig: Ymweliad i Iwerddon](#)

<sup>56</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraff 142

<sup>57</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraff 159



- 51.** Dywedodd Siambr Fasnach Gorllewin Swydd Gaer a Gogledd Cymru wrth yr Aelodau y byddent yn awyddus i'r Tasglu archwilio'r cynllun ar gyfer adnewyddu'r Porthladd, ond hefyd y cynllun tymor hwy o gynnal a chadw a pharhad.<sup>58</sup>
- 52.** Ymhelaethodd Fforwm Busnes Cybi ar hyn, gan nodi y byddai asesiad o effaith economaidd yn ddefnyddiol, ond hefyd ceisio meddwl am yr holl brosiectau gwahanol hyn yn fwy cyffredinol hefyd. Tynnodd sylw at y prosiect porth, y gwaith i ehangu'r Porthladd, a'r porthladd rhydd. Nododd fod tagfeydd rheolaidd ar ffyrdd i mewn i'r dref yn orlawn iawn, ac, wrth feddwl am faint o draffig sy'n mynd dros Black Bridge, y byddai unrhyw fath o darfu ar hynny yn arwain at dagfeydd drwy'r dref gyfan.<sup>59</sup>
- 53.** Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru mai'r rheswm am yr oedi wrth sefydlu'r tasglu oedd bod angen i Lywodraeth Cymru gael y manylion wedi'u cymeradwyo gan Weinidogion Iwerddon, o ystyried mai ymdrech ar y cyd ydyw, ac y bu llawer iawn o newid o fewn Llywodraeth Iwerddon dros y misoedd diwethaf yn dilyn Etholiad Cyffredinol Iwerddon.<sup>60</sup>

## Ein barn ni

Mae disgwyliadau mawr yn cael eu rhoi ar ysgwyddau Tasglu Môr Iwerddon. Er ein bod yn falch bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Iwerddon, i wella cysylltiadau dros Fôr Iwerddon, mae gennym bryderon ynghylch pa mor gyflym y bydd y tasglu yn gallu gweithio, a pha mor hyblyg ydyw.

Er ein bod yn nodi sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru ynghylch effaith etholiad cyffredinol Iwerddon, nodwn hefyd fod Llywodraeth Iwerddon wedi'i ffurfio ar 23 Ionawr,<sup>61</sup> chwe wythnos cyn ein sesiwn dystiolaeth. Sylwn hefyd fod Gweinidogion Iwerddon oedd yn eu rôl ar adeg y digwyddiad, tra roedd y Llywodraeth yn cael ei ffurfio, yn ymgysylltu llawer â'r digwyddiadau.

Mae rhanddeiliaid wedi codi rhestr hir o faterion y gallai'r Tasglu fynd i'r afael â hwy, ac mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi y bydd polisiau hir-ddisgwyliedig ar gludo nwyddau a phorthladdoedd bellach yn destun gwaith y Tasglu hefyd. Bydd angen i'r Tasglu gymryd agwedd ddeinamig sy'n blaenoriaethu gwelliannau angenrheidiol ac yn helpu i wireddu'r rhain, ac yn

---

<sup>58</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraff 420

<sup>59</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraff 422

<sup>60</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 6 Mawrth 2025, paragraff 504

<sup>61</sup> Gov.ie, [Araith gan Taoiseach Micheál Martin](#) ar gyhoeddi Aelodau'r Llywodraeth, 23 Ionawr 2025

osgoi risgiau posibl megis ceisio ymgymryd â gormod o waith, gan arwain at oedi. Byddwn yn dilyn gwaith y Tasglu yn agos dros weddill y Senedd hon.

Teimlwn hefyd ei bod yn bwysig cofio nad yw materion gwydnwch yn stopio wrth giât y Porthladd. Rhan allweddol o'r rhestr o bryderon rhanddeiliaid oedd tagfeydd a gwendidau yn y rhwydwaith trafndiaeth y tu allan i'r Porthladd - yn enwedig y ddwy groesfan dros Afon Menai. Ni fydd unrhyw wydnwch ychwanegol i Borthladd Caergybi ei hun yn cyflawni ei nod os na chaiff ei gefnogi gan fwy o wydnwch ar hyd y llwybr i Gaergybi, gan gynnwys y pontydd.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn bwriadu monitro gwaith Tasglu Môr Iwerddon. I gynorthwyo gyda hyn, rhaid i Lywodraeth Cymru nodi manylion llawn ei chylch gorchwyl, aelodaeth a thasgau, gan gynnwys amserlenni. Dylai'r Tasglu roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn rheolaidd. Dylai amcanion Tasglu Môr Iwerddon gynnwys:

- Deall y ffactorau a achosodd y digwyddiadau yng Nghaergybi i ddeall a oes unrhyw oblygiadau i'r sector porthladdoedd ehangach neu bolisïau porthladdoedd;
- Sicrhau diogelwch y Porthladd yn y dyfodol;
- Gwella cyfleusterau i yrwyr yng Nghaergybi/ar y ffordd i Gaergybi;
- Asesu gwydnwch y cysylltiadau trafndiaeth i Gaergybi, a'u gwella, gan gynnwys ystyried cysylltiadau rheilffordd;
- Cefnogi hyfywedd hirdymor y Porthladd ac osgoi dargyfeirio masnach; a
- Sicrhau bod cynllun wrth gefn cryf ar gyfer unrhyw gyfnodau cau yng Nghaergybi yn y dyfodol, a phorthladdoedd yng Nghymru yn gyffredinol. Yn benodol, dylai hyn gynnwys rheoli traffig, cyfathrebu, gweithredu llwybrau morol amgen a chymorth i fusnesau lleol.